# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 19 Mehefin 2024

Amser y cyfarfod: 13.30

## 217(v5)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

### 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Ysgrifennydd Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Ysgrifennydd Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 3 Cwestiynau Amserol

(0 munud)

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau amserol

### 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 26.91 yn ceisio cytundeb y Senedd i gyflwyno Bil Aelod – Bil Iaith Arwyddion Prydain (BSL) (Cymru)

(60 munud)

**NDM8599** Mark Isherwood (Gogledd Cymru)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 26.91:

Yn cytuno y caiff Mark Isherwood AS gyflwyno Bil i roi effaith i'r wybodaeth a gaiff ei chynnwys yn y Memorandwm Esboniadol a gyhoeddwyd ar 31 Mai 2024 o dan Reol Sefydlog 26.91A.

## 6 Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) – Gofal iechyd menywod – Gohiriwyd

(0 munud)

**NDM8566** Delyth Jewell (Dwyrain De Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn gresynu bod poen corfforol ac emosiynol menywod yn cael ei normaleiddio yn eu gofal iechyd, yn ogystal â'r disgwyliad bod poen yn agwedd anffodus ar iechyd menywod ond yn un na ellir ei hosgoi.

2. Yn credu, drwy ymgynghori â gynaecolegwyr, bydwragedd a grwpiau iechyd menywod, y dylai gweithwyr iechyd proffesiynol anelu at leihau sefyllfaoedd lle y mae poen yn ddisgwyliedig ac yn cael ei dderbyn fel rhywbeth normal yng ngofal iechyd y GIG.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) cryfhau'r disgwyliadau ar gyfer gwasanaethau'r GIG yn y Datganiad Ansawdd ar gyfer iechyd menywod a merched;

b) sefydlu gofyniad cyfreithiol i ddarparwyr gofal iechyd gasglu adborth yn rheolaidd gan gleifion benywaidd am eu profiadau a'u bodlonrwydd â'r gofal a gânt, yn enwedig mewn perthynas ag apwyntiadau gynaecolegol, bydwreigiaeth a gwasanaethau ôl-enedigol, iechyd meddwl amenedigol a menopos; ac

c) cyflwyno rhwymedigaethau statudol ar gyfer datblygu, cydgysylltu a gweithredu'r Cynllun Iechyd Menywod a ddatblygwyd gan GIG Cymru y mae gynaecolegwyr, bydwragedd a grwpiau iechyd menywod wedi ymgynghori arno, a

ddylai gynnwys mesurau i fynd i'r afael â normaleiddio poen ym maes gofal iechyd menywod, ac i’w atal.

**Cyd-gyflwynwyr**

Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)

Jane Dodds (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Carolyn Thomas (Gogledd Cymru)

**Cefnogwyr**

Lee Waters (Llanelli)

Mabon ap Gwynfor (Dwyfor Meirionnydd)

Peredur Owen Griffiths (Dwyrain De Cymru)

Russell George (Sir Drefaldwyn)

Rhianon Passmore (Islwyn)

Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Sian Gwenllian (Arfon)

Sioned Williams (Gorllewin De Cymru)

## 7 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Ffordd osgoi Cas-gwent

(30 munud)

**NDM8618** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cydnabod manteision ffyrdd osgoi o ran cefnogi economïau lleol a lleihau tagfeydd.

2. Yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth y DU i ddarparu cyllid i Gyngor Sir Fynwy ddatblygu cynlluniau ar gyfer ffordd osgoi Cas-gwent.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU, Cyngor Sir Fynwy a Chyngor Swydd Gaerloyw i ddarparu ffordd osgoi Cas-gwent.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cydnabod y problemau o ran tagfeydd yng Nghas-gwent.

2. Yn cydabod yr angen am rwydwaith trafnidiaeth integredig, deniadol a chynaliadwy sy’n cefnogi twf yn yr ardal.

3. Yn cefnogi dull Llywodraeth Cymru o weithio mewn partneriaeth â Trafnidiaeth Cymru, Cyngor Sir Fynwy a Chyngor Swydd Gaerloyw i ystyried opsiynau ar gyfer gwella’r rhwydwaith ffyrdd, darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus a darpariaeth teithio llesol i wella teithio yng Nghas-gwent.

**Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-dethol.**

**Gwelliant 2** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Dileu pwyntiau 2 a 3 a rhoi yn eu lle:

Yn credu y dylid ymgymryd â datblygiadau seilwaith mewn ymgynghoriad llawn â chymunedau ac yn unol ag anghenion cymunedau a nodwyd.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio i ddarparu seilwaith newydd i leddfu tagfeydd yn unol â'r egwyddorion hyn, gan gynnwys darparu trydydd bont y Fenai, a ffyrdd osgoi yn Llandeilo a Chas-gwent.

Yn galw ar Lywodraeth nesaf y DU i sicrhau setliad ariannu teg ar gyfer Cymru, a'r £4 biliwn mewn symiau canlyniadol sy'n ddyledus i Gymru o HS2, i ddarparu'r cyllid sydd ei angen i wella'r seilwaith trafnidiaeth a'r seilwaith ffyrdd yng Nghymru er mwyn lleddfu tagfeydd.

## 8 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Niwclear

(30 munud)

**NDM8617** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn dathlu rôl ynni niwclear wrth greu swyddi â chyflog da a sgiliau uchel, wrth sicrhau ynni rhatach, glanach a mwy diogel, gan weithio tuag at dargedau sero-net.

2. Yn croesawu ymrwymiad parhaus Llywodraeth y DU i arf ataliol trident y DU.

3. Yn croesawu ymhellach ymrwymiad Llywodraeth y DU i ddarparu gorsaf ynni gigawatt newydd yn yr Wylfa yng Ngogledd Cymru a gweithio gyda'r diwydiant i ddarparu prosiectau presennol yn Hinkley Point a Sizewell.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU i ehangu ynni niwclear yng Nghymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cefnogi swyddogaeth ynni niwclear ochr yn ochr ag ynni adnewyddadwy yng nghynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer trawsnewid gwyrdd a theg i economi carbon isel, gan sicrhau bod yr holl ynni newydd a gynhyrchir yng Nghymru yn ynni allyriadau sero.

2. Yn galw ar Lywodraeth newydd y DU i weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru i ystyried yn llawn yr holl opsiynau ar gyfer gorsaf newydd yn yr Wylfa a chyfleoedd yn y dyfodol ar gyfer Trawsfynydd, gan gydnabod pwysigrwydd allweddol cydweithio mewn perthynas â'r pwerau datganoledig perthnasol.

3. Yn croesawu swyddogaeth flaengar Llywodraeth Cymru, wrth gydweithio â Llywodraeth y DU, y diwydiant a phartneriaid, er mwyn cefnogi ynni niwclear yng Nghymru er mwyn gwneud y gorau o'r manteision economaidd-gymdeithasol ar gyfer Cymru.

**Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol.**

**Gwelliant 2** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd

1. Yn dathlu bod gan Gymru yr adnoddau naturiol i fod ar flaen y gad o ran cynhyrchu ynni glân, adnewyddadwy.

2. Yn credu, os caiff ei ariannu'n briodol, y gallai ailddatblygiad arfaethedig safle'r Wylfa greu swyddi sgiliau uchel ar gyfer Ynys Môn.

3. Yn galw ar Lywodraeth nesaf y DU i:

a) datganoli pwerau llawn dros Ystâd y Goron i Gymru, er mwyn sicrhau bod ein cymunedau'n gallu elwa'n llawn ar ddatblygiadau ynni adnewyddadwy ar y môr fel dewisiadau amgen hyfyw yn lle gorsafoedd ynni niwclear newydd; a

b) sicrhau bod datblygiad safle'r Wylfa yn cyd-fynd yn llawn ag anghenion y gymuned leol.

## 9 Cyfnod Pleidleisio

## 10 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM8590** Rhys ab Owen (Canol De Cymru)

Gweithwyr Allied Steel and Wire a chyfiawnder pensiwn.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 25 Mehefin 2024

## Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 12/06/2024 i'w hateb ar 19/06/2024

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## YSGRIFENNYDD Y CABINET DROS GYLLID, Y CYFANSODDIAD A SWYDDFA'R CABINET

**Mabon ap Gwynfor** *Dwyfor Meirionnydd*

1 OQ61284 **(w)**

Pa ystyriaeth mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi'i rhoi i ddefnyddio pwerau benthyca y Llywodraeth ar gyfer adeiladu tai cymdeithasol?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

2 OQ61290 **(e)**

Beth yw polisi Llywodraeth Cymru ar gaffael, defnyddio a gwerthu eiddo?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

3 OQ61271 **(e)**

Pa ystyriaeth a roddodd yr Ysgrifennydd Cabinet i fynd i'r afael â digartrefedd ymhlith pobl ifanc wrth lunio cyllideb ddrafft 2024-25 Llywodraeth Cymru?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

4 OQ61264 **(e)**

Pa drafodaethau y mae yr Ysgrifennydd Cabinet wedi'u cael gyda Chynghrair Twristiaeth Cymru ynghylch gweithredu'r ardoll ymwelwyr?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

5 OQ61289 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi'i wneud o weinyddu grantiau Llywodraeth Cymru a ddyfarnwyd i sefydliadau yng Nghwm Cynon?

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

6 OQ61275 **(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith toriadau cymorth cyfreithiol, fel y nodwyd yn adroddiad y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru?

**Carolyn Thomas** *Gogledd Cymru*

7 OQ61280 **(e)**

Pa sylwadau y mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi'u gwneud i Lywodraeth y DU ynghylch cynyddu pwerau benthyca darbodus i Gymru?

**Cefin Campbell** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

8 OQ61268 **(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu datganiadau'r Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

9 OQ61286 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi'i wneud o'r angen i ddatganoli pwerau dros blismona i Gymru?

**Rhys ab Owen** *Canol De Cymru*

10 OQ61265 **(e)**

Pa gynnydd sydd wedi'i wneud ar y gwaith gan Lywodraeth Cymru a'r SYG ar gydlynu ystadegau'r Gymraeg rhwng y cyfrifiad ac arolygon eraill?

**Peter Fox** *Mynwy*

11 OQ61273 **(e)**

Pa flaengynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ei phortffolio o eiddo ac asedau eraill?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

12 OQ61282 **(e)**

Pa diweddar y mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi'i wneud o effaith yr ardoll ymwelwyr ar fusnesau'r canolbarth?

## YSGRIFENNYDD Y CABINET DROS NEWID HINSAWDD A MATERION GWLEDIG

**Sioned Williams** *Gorllewin De Cymru*

1 OQ61266 **(d)**

Sut y mae'r Llywodraeth yn sicrhau nad yw unrhyw brosiectau y mae'n eu hariannu'n cael effaith negyddol ar yr amgylchedd lleol?

**Sam Rowlands** *Gogledd Cymru*

2 OQ61277 **(e)**

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i annog y defnydd o dechnoleg mewn ffermio?

3 **Peter Fox** *Mynwy*

OQ61272 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi'i wneud o sicrwydd dŵr yng Nghymru?

4 **Russell George** *Sir Drefaldwyn*

OQ61281 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifenydd Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau Llywodraeth Cymru i ddileu TB buchol yn y canolbarth?

5 **Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

OQ61269 **(e)**

Beth yw polisi Llywodraeth Cymru ar gynyddu faint o fywyd gwyllt sydd ar ffermydd?

6 **James Evans** *Brycheiniog a Sir Faesyfed*

OQ61267 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion capasiti staff yn Cyfoeth Naturiol Cymru?

7 **Cefin Campbell** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

OQ61288 **(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i ddarparu dull o goedwigo sy'n gweithio gyda chymunedau lleol ac ar eu cyfer?

8 **Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

OQ61274 **(e)** Tynnwyd yn ôl

Pa fesurau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i sicrhau bod Gwastadeddau Gwent yn cael eu gwarchod?

9 **Natasha Asghar** *Dwyrain De Cymru*

OQ61279 **(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r sector amaethyddol yn Nwyrain De Cymru?

10 **Julie Morgan** *Gogledd Caerdydd*

OQ61276 **(e)**

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â microblastigau yng Nghymru?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

11 OQ61287 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd eleni i atal llygredd diwydiannol rhag effeithio ar gymunedau?